

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 151 Rhif 22 Mai 31, 2018 50c.

## Mae'n bleser gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gyhoeddi mai **Y PARCHEDIG DYFRIG REES** sydd wedi ei ethol gan yr eglwysi a'r Aelodau Personol yn Ysgrifennydd Cyffredinol nesaf yr Undeb.

### Y Parchedig Dyfrig Rees

Brodor o Fancffosfelen yng Nghwm Gwendraeth, sir Gâr yw Dyfrig, sy'n briod â Mandy a chanddynt ddau fab. Wedi derbyn ei addysg yn ysgol y pentref ac yn Ysgol Ramadeg y Gwendraeth, treuliodd beth amser yn gweithio ar ffermydd cyn cyflwyno'i hunan i waith y weinidogaeth gyda sêl bendith ei fam eglwys yng Nghaersalem, Pontyberem. Cafodd ei addysg ddiwinyddol yn y Coleg Coffa, Aberystwyth gan raddio mewn diwinyddiaeth. Ac eithrio'i ofalaeth gyntaf ym Maldwyn a'i un bresennol yn y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr treuliodd ei flynyddoedd yn gofalu am eglwysi yn ei ardal enedigol. Bu hefyd yn weithgar mewn amrywiol gyfundebau ac yn rhengoedd CWM a'r Undeb.



Mae'n bleser gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gyhoeddi mai'r Parchedig Beti-Wyn James sydd wedi ei ethol gan yr eglwysi a'r Aelodau Personol yn ddarpar-lywydd nesaf yr Undeb.

### Y Parchedig Beti-Wyn James

Daw Beti-Wyn James o Glydach yng Nghwm Tawe a bu ar staff yr Undeb cyn graddio yng Ngholeg yr Annibynwyr Cymraeg, Aberystwyth, ei hordeinio'n



weinidog yn y Tabernacl, Y Barri ym 1994 a symud i Ofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin yn 2002. Yn gefnogol i bob agwedd o weithgarwch yr Undeb a'r Cyfundebau, mae bod yn Gadeirydd Rhwydwaith Merched yr Annibynwyr ac Ysgol Haf Gweinidogion yr Annibynwyr ymhlith ei chyfrifoldebau presennol. Mae'n awdur ac yn llais cyfarwydd ar y cyfryngau ac yn rhoi bri ar werth a phwysigrwydd y weinidogaeth Gristnogol. Mae'n briod â Philip a chanddynt ddwy ferch.

## HYFFORDDI BUGEILIAID

*Festri capel Bethania Tymbll Uchaf oedd y lleoliad ar gyfer y Diwrnod i Weinidogion y De ar ddydd Mercher 18 Ebrill, ac er bod ychydig yn llai nag arfer o weinidogion yn bresennol, cafwyd diwrnod oedd wrth fodd pawb oedd yn bresennol.*

Paned a chyfle i ddal i fyny i ddechrau, cyn bod Robin Samuel, oedd yn gyfrifol am drefnu'r diwrnod, yn croesawu ac yn arwain y defosiwn agoriadol. Ymhlith y nifer o ymddiheuriadau, roedd un gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol oedd yn anhwylyd. Gydag yntau ar fin ymdeol y cyfarfod yma fyddai'r Diwrnod Gweinidogion y De olaf iddo fel Ysgrifennydd Cyffredinol, ac roedd pawb oedd yn bresennol am estyn eu dymuniadau gorau iddo.

### Gweithredu ar fyrder

Alun Tudur oedd yn gyfrifol am y sesiwn bore o dan y teitl, 'Egin, egni a geni', sef papur a gyflwynwyd ganddo'n wreiddiol i'r Adran Tystiolaeth yng nghyfarfodydd y Cyngor, gyda'r bwriad o annog yr eglwysi i ymateb yn gadarnhaol i'r chwalfa ysbrydol sy'n digwydd yng Nghymru. Rhannwyd ni'n grwpiau er mwyn trafod nifer o gwestiynau allweddol fel, 'Beth yw'r newidiadau sydd wedi effeithio'n negyddol ac yn gadarnhaol ar yr eglwysi dros y ganrif ddiwethaf?' 'Sut mae pobl yn gweld y byd maen nhw'n byw ynddo erbyn hyn?' 'Beth yw'r camau bach mewn ffydd gall yr eglwys eu cymryd i newid y sefyllfa bresennol?' Fe'n rhybuddwyd bod perygl gwirioneddol

*parhad ar dudalen 2*

## Cofio'r cenhadon

Mae dathliadau Madagascar/Cymru wedi cychwyn yng ngorllewin Sir Gâr! Cynhaliwyd y Gymanfa Bwnc ddydd Sul,



6 Mai yng nghapel Cana, Bancyfelin. Cafwyd tri chyflwyniad ardderchog gan blant ac ieuencid eglwysi'r cylch. Rhoddwyd cip olwg ar fywyd Madagascar gan ysgol Sul Ffynnonbedr; hanes y cenhadon o Neuadd-Iwyd, David Jones a Thomas Phillips gan ysgol Sul Gibeon, a chefnidir dathliadau 2018 Madagascar a Chymru gan ysgol Sul Cana. Roedd y capel wedi addurno yn arbennig ar gyfer yr achlysur

gyda'r goeden Baobab yn cael lle canolog, a gwnaeth Emyr y lemur ei ymddangosiad cyntaf a derbyn croeso mawr gan y plant (ac ambell oedolyn).

Yn dilyn cyflwyniadau'r plant cafwyd cyfle i wyllo rhan o ffilm cynllun *Y Ffordd* cyn i'r oedolion gael eu holi gan y Parchg Beti-Wyn a chafwyd trafodaeth dda ar 'Feithrin ac Adeiladu'r Eglwys'. Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchg Rhodri Glyn Thomas a chyhoeddwyd y Fendith gan y Parchg Felix Aubel. Gwnaed casgliad yn ystod yr oedfa tuag at Apêl Madagascar a dyna gychwyn ar flwyddyn o weithgarwch!



## HYFFORDDI BUGEILIAID – parhad

y gwelir diflaniad y dystiolaeth Gristnogol Gymraeg o fewn ein cymunedau Cymraeg, oni bai ein bod ni'n gweithredu ar fyrder. Cafwyd trafodaeth frwd yn y grwpiau gyda phawb yn gytûn mae dechrau'r drafodaeth yr oeddem, a bod angen parhau ac ymestyn y drafodaeth yn ein heglwysi. Wedi gorffen sesiwn y bore, roedd pawb yn barod am y cinio blasus a baratowyd, yn ôl yr arfer, gan Mrs Wendy Ellis.

### Cymorth Cristnogol

Roedd sesiwn y prynhawn o dan ofal Tom Defis, Ysgrifennydd Cymorth Cristnogol



dros dde orllewin a chanolbarth Cymru. Gydag Wythnos Cymorth Cristnogol ar y stepen drws fe'n harweiniwyd gan Tom drwy'r adnoddau sydd wedi eu paratoi ar gyfer yr eglwysi i ddathlu'r Wythnos eleni.

### Cryfach na'r stormydd

Thema'r Wythnos yw, 'Mae Teyrnas Dduw yn Gryfach na Stormydd' gyda sylw arbennig i waith mudiad KORAL, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol yn Haiti. Cawsom gyfle i wyllo rhai o'r ffilmau grymus a baratowyd. Un yn adrodd stori

Vilia, a gollodd ei chartref gwreiddiol yn naearyn 2011, ond sydd wedi cael cartref newydd bellach gan KORAL. Profodd y cartref yma ei werth yn ystod Corwynt Mathew yn 2016 pan ddaeth yn lloches rhag y corwynt i 54 o gymdogion Vilia, oedd wedi gweld eu cartrefi hwy wedi eu dinistrio. Er bod y corwynt wedi difa cynydau a da byw Vilia, mae KORAL wedi ei helpu i ailadeiladu ei fferm.

### Amrywiol ddeunyddiau

Soniodd Tom hefyd am y gweddïau a baratowyd a'r deunydd arbennig ar gyfer plant ac ieuencid. Mae yna rywbeth ar gyfer eglwys fawr neu fach, cryf neu wan, ac fe ddylem fod yn sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn cael eu hatgoffa o'r angen sydd yn ein byd, a'r cyfle mae Cymorth Cristnogol yn ei gynnig i fynd i'r afael a hynny, gan adeiladu Teyrnas Dduw yma ac yn awr.

Diolchodd Robin i bobl Bethania am eu croeso cynnes arferol, i'r gwagedd am baratoi paned, i Wendy am y cinio ac i'r ddau siaradwr. Cynhelir y Diwrnod nesaf yn yr Hydref, ac fe geir manylion llawn amdano yn y *Tyst* yn agosach i'r dyddiad.

## Cadw'r fflam ynghyn CWRDD CHWARTER CYFUNDEB LLUNDAIN

Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter y Gwanwyn Cyfundeb Llundain ddydd Sadwrn, 21 Ebrill yng nghapel Harrow.

Cafwyd Pwyllgor Gwaith dan gadeiryddiaeth y Parchg Rob Nicholls. Eglurodd Mair Jones (Ysg.) ein bod fel Cyfundeb wedi enwebu olynnydd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol a Darpar-Lywydd yr Undeb, ond bod nawr gyfle i bob eglwys wneud eu dewis eu hunain ar y ffurflenni a ddaeth i law o Dŷ John Penri.

### Cyfarfod busnes

Gydag Apêl Madagascar yn cael ei chyflwyno yn yr Undeb ym mis Mehefin cytunodd Mrs Marian Howell, Eglwys Gymraeg Canol Llundain i fod yn Swyddog Cyswllt y Cyfundeb. Cafwyd adroddiad o'r Cyngor ym mis Mawrth gyda gwybodaeth am weithgareddau sy'n digwydd yn yr eglwysi a'r Cyfundebau yng Nghymru. Cadarnhawyd y bydd Gwyl y Cyfundeb yn cael ei lleoli'n flynyddol yn EGCLI am 11 y bore a 2 o'r gloch y pnaen ar yr ail Sul ym mis Mai. Eleni rydym yn disgwyl y Parchg Dyfrig Rees i wasanaethu. Bydd y gymanfa – ar y Sul ola'n mis Medi a Chwrdd Chwarter y gwanwyn yn cael eu cynnal am yn ail yn y Boro' a Harrow. Eleni bydd y gymanfa yn y Boro'. Diolchwyd i'r Parchg Gwylfa Evans am adroddiad y Trysorydd gan gadarnhau y byddwn yn danfon cyfraniadau i'r elusennau arferol

eleni eto ac y bydd Apêl Madagascar yn cael sylw ychwanegol.

### Addoliad

Cawsom seibiant byr cyn croesawu pawb i'r Cwrdd Chwarter gan Rob Nicholls a'n gŵr gwadd, Mr Glyn Williams, Llywydd yr Undeb. Cafwyd darlenniad o efengyl Ioan gan Mrs Ann Batey, EGCLI ac offrymwyd y weddi gan y Parchg Gwylfa Evans. Cyflwynwyd Glyn – sy bron a gorffen ei amser fel Llywydd yr Undeb erbyn hyn gan Rob ac er ei fod yn ymwelydd cyson a ni yma'n Llundain roeddem yn falch ei fod wedi cael cyfle arall i ddod atom fel Cyfundeb.

### Llosgi

Ar ddechrau ei anerchiad eiliodd Glyn hyn gan ddweud ei fod yn teimlo'n gartrefol yn ein plith a da oedd clywed hynny! Roedd ei neges i ni wedi ei selio ar ei anerchiad yn yr Undeb yn 2016 – neges rymus, wedi ei selio ar adnod o lyfr Lefiticus – 'Rhaid cadw'r tan i losgi'n barhaol ar yr allor; nid yw i ddiffodd.' Dyma'r thema oedd yn rhedeg drwy'r neges, a ydy'r fflam yn diffodd yn ein hardaloedd heddiw. Os yw, beth ddylem wneud i'w chadw i losgi? Ydy, mae sefyllfa ein capeli, ein cymdeithas a'n hymateb i'r alwad wedi newid ac mae angen i ni pa le bynnag yr ydym, ailfeddwl sut y gallwn ni symud ymlaen. Rhaid i ni ffydloniaid i Grist symud tu allan i furiau capeli i'r gymuned o'n cwmpas i herio dilynwyd Crist a dangos iddynt ein bod am gadw'r fflam i losgi a gafael mewn cyfleoedd newydd ac ymafael ynddynt. Mae'n reidrydd anrom ni wneud hynny drwy edrych am ffordd effeithiol i



wireddu hyn drwy'r Efengyl i sicrhau y bydd Eglwys Iesu Grist yn parhau a'r fflam yn dal i losgi ymhell ar ôl ein dyddiau ni. Ie, neges sy'n ein cymell i fynd fel pysgotwyr dynion a chadw'r fflam rhag diffodd, a Duw a roddo nerth ac arweiniad i ni a'n dilynwyd i sicrhau y bydd y tân ar yr allor yn dal i losgi.

### Gwerthfawrogiad

Diolchwyd i Glyn am neges heriol gan Mrs Marion Howell, EGCLI, ac i bawb oedd wedi cymeryd rhan yn ystod y pnaen, gan gynnwys Mrs Valmai Jones wrth yr organ. Diolchodd hefyd i gyfeilion Harrow am y te oedd yn ein haros ar ol y cyfarfod. Cawsom orig hapus yn cymdeithasu gyda'n gilydd a gyda Glyn a'i briod Dilys cyn i ni gyd wasgaru ar hyd a lled Llundain a'r cyffiniau.

Mair Jones

## TYSTEB

Bydd y Parchedig Andrew Lenny yn ymddeol o'i ofalaeth fel gweinidog yr Annibynwyr yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, ar ddiwedd Gorffennaf eleni ar ôl 31 mlynedd o wasanaeth diflino. Bwriedir gwneud tysteb i ddangos gwerthfawrogiad yr ardal iddo ef a Mrs Lenny ac fe dderbynnir cyfraniadau os dymunwch i 'Eglwys Gynulleidfaol Seion Stryd y Popty', i'w hanfon i Lewis Gruffudd, 66 Maesceinion, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3QJ, erbyn 17 Mehefin.

Bydd y dysteb yn cael ei chyflwyno iddynt mewn gwasanaeth arbennig ym mis Gorffennaf.

# Golygyddol

## FFORDD O FEITHRIN ADDOLWYR

O fewn yr ofalaeth hon o eglwysi, y mae 'na dair ysgol Sul, a rhai eithaf llewyrchus. Ond, fel llawer o eglwysi eraill yng Nghymru, prin yw'r cysylltiad rhwng y rhieni a'r gwasanaethau ar y Sul ar wahân i 'wasanaethau arbennig.'

Nid fy mwriad yw barnu, a dweud y gwir, fi fyddai'r diwethaf i wneud hynny oherwydd fy mod yn gweld gwendid y patrwm addoli arferol. Pe bawn i'n rhiant ifanc yn ei ddau a'i dridegau, a fyddwn i'n addolwr yn y dull arferol? Cwestiwn a ofynnaf i mi fy hun yw hwnnw.

### Fumto a donyts

Mewn dwy eglwys (hyd yma), trefnwyd gwasanaethau Cymun gwahanol i'r arfer. Gofynnais i'r plant fod yn y gwasanaeth drwyddo, a do, cefais gyfle i esbonio'r Swper Olaf mewn dull yr oedd y plant yn ei ddeall – diolch i ganiau Fumto a donyts! Roedd dull y plant o ymateb yn gall,

synhwyrol, ac ia, doniol ar dro. Wedi'r cyfan, swper cyffredin oedd y Swper Olaf yn ei hanfod.

### Arweinwyr y dyfodol

Ar ddiwedd y ddau wasanaeth, nid yn gymaint y plant – er mor braf hynny – a'm calonogodd, ond y ffaith i rieni rhai o'r plant gyfaddef na fu iddynt fod mewn gwasanaeth Cymun ers blynnydoedd, ac y byddent yn fodlon dod eto i wasanaeth Cymun pe'i gweinyddid yn y dull yma. (Cofiwch, yr oedd yr elfennau arferol o fara a gwin ar gael i oedolion.) A'r gwir amdani, gan fesur fy ngeiriau'n ofalus, nid dweud 'y plant yw dyfodol yr eglwys' a ddylem ond 'y rhieni yw dyfodol yr eglwys', a llwyddo i gyrraedd y rheini ydi'r dasg, a thasg gwerth ei gwneud hefyd, a'u cyrraedd ar eu telerau nhw, nid ar ein telerau ni. Nid eu trapio chwaith ond rhoi cyfrifoldebau iddynt i fod yn arweinwyr y dyfodol, ac efallai nid yn y dull arferol o ddiagoniaid chwaith ...

Mae angen lapio'r sefyllfaoedd yma yng nghariad ein Harglwydd Iesu Grist a gweld y posibiladau nid yr amhosibiliadau.

Iwan Llewelyn

## Pobl y Pentecost: Dal ati o ddirif

*Dyma'r erthygl gyntaf mewn cyfres o chwech gan y Parch. Casi Jones sy'n ein harwain i ystyried arwyddocâd dyfodiad yr Ysbryd Glân a'i berthnasedd i'n heglwysi ni heddiw.*

'Roedden nhw'n dal ati o ddirifi – yn dilyn beth oedd yr apostolion yn ei ddysgu, yn rhannu popeth, yn bwyta a dathlu Swper yr Arglwydd ac yn gweddio gyda'i gilydd. Roedd rhyw ymdeimlad o ryfeddod dwfn yn eu plith nhw. Roedd yr apostolion yn gwneud gwyrthiau rhyfeddol oedd yn dangos fod Duw gyda nhw. Roedd pawb oedd yn credu yn teimlo'u bod nhw'n un teulu, ac yn rhannu popeth gyda'i gilydd.

Roedden nhw'n gwerthu eu heiddo er mwyn gallu helpu pwy bynnag oedd mewn angen. Roedden nhw'n dal ati i gyfarfod bob dydd yng nghwrt y deml, ac yn bwyta a dathlu Swper yr Arglwydd yn nhai ei gilydd. Roedden nhw'n moli Duw, ac roedd agwedd pobl tuag atyn nhw yn bositif iawn. Roedd mwy a mwy o bobl yn ymuno â nhw, ac yn cael eu hachub gan Dduw, bob dydd.' Actau 2: 42-47

'Roedden nhw'n dal ati o ddirifi,' meddai awdur Llyfr yr Actau ac mae'n mynd ymlaen i roi darlun cryno o fywyd

a thystiolaeth yr Eglwys Fore. Dros y canrifoedd mae'r Eglwys wedi wynebu her ar ôl her ond er gwaethaf pawb a phopeth mae hi yma o hyd. Dydy hi ddim bob amser yn hawdd ar eglwysi heddiw ac mae 'na rywbeth arwrol am gynulleidfaoedd ledled y byd sy'n dal ati a hynny o ddirifi i gynnal y dystiolaeth Gristnogol.

### Yn nerth yr ysbryd

Wrth gwrs, nid dal ati yn eu nerth eu hunain oedd y Cristnogion cyntaf. Pobl y

Pentecost oedden nhw, criw

wedi eu harwain a'u pweru gan yr Ysbryd Glân.

Doedden nhw byth yn aros yn eu hunfan ond yn cerdded ymlaen gam wrth gam ar daith gynhyrfus gyda Duw. Ganrifoedd yn ddiweddarach, fedrwn ni fel eglwysi ddim parhau yn ein nerth ein hunain heb gymorth yr Ysbryd, a fedrwn ni ddim fforddio aros yn ein hunfan

chwaith na hiraethu am ryw ddoe na ddaw yn ôl. Mae 'dal ati o ddirifi' yn golygu cymryd balchder yn yr hyn rydym yn ei wneud yn barod gan ddal ati i drïo pethau newydd a symud ymlaen yng nghwmni Crist.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, rydym am edrych ar wahanol agweddau ar fywyd Eglwys Iesu Grist gan ddathlu'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd ym mywyd ein heglwysi ac ysbrydoli'n gilydd i fentro trio ambell i beth newydd hefyd.



## YSGOL HAF Y GWEINIDOGION – MEHEFIN 25-27, 2018

Canolfan Halliwell  
Coleg Prifysgol Cymru y Drindod  
Dewi Sant, Caerfyrddin  
Prif thema: *Gweinidogaeth – Yr Alwad*  
Cadeirydd: **Beti Wyn James.**

### Llun 25

- 4.00 Cyrraedd, cofrestru, coffi.
- 5.00 Seminar: **Yr alwad i weinyddu**  
**I agor: Alun Tudur, Dewi Myrddin Hughes, Gwyndaf Richards**
- 6.30 Swper
- 7.30 Darlith Goffa W. T. Pennar Davies ac R. Tudur Jones  
**Alun Wyn Bevan: Y Campau ac Ysbryd Brawdol**
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

### Mawrth 26

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Catrin Haf Williams – Y Defnydd o'r Hen Destament yn y Newydd: Trafodaethau a Datblygiadau mewn Ysgolheictod Gyfoes**
- 12.30 Cinio
- 1.30 Gwibdaith dan ofal **Dyfrig Rees**
- 5.00 Coffi
- 5.30 Cyfarfod Busnes
- 6.30 Swper
- 7.30 Atgofion: **John Lewis Jones**
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

### Mercher 27

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Noel A. Davies – Gweinidogaeth Gristnogol heddiw: gwreiddiau a gorwelion**
- 12.15 Defosiwn: **Y Cadeirydd**
- 12.30 Cinio

Enwau i'r Ysg. Dyfrig Rees erbyn 5 Mehefin, fan bellaf.

mandydyfrig@btinternet.com 01656 648726.

Noddir yr Ysgol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

*Erthyglau, llythrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
 Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**  
 ABERTAWA SA7 0AJ  
 Ffôn: 01792 795888  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir y Pedair Tudalen  
 Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r  
 Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr  
 Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
 wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
 chynnwys y Pedair Tudalen.

# TAITH GERDDED



Roedd bore Sadwrn 21 Ebrill yn fore hyfryd o wanwyn a braf oedd gweld 55 o aelodau capel Hope-Siloh Pontarddulais wedi ymgynnull yng nghoedwig Penllergaer ar gyfer taith gerdded. Bwriad y daith oedd helpu Lowri Jones, un o ieuencid, yr eglwys i gasglu arian ar gyfer ei hymweliad â Phatagonia gyda'r Urdd. Fe hoffai Lowri ddiolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi'r daith gerdded lwyddiannus. Hoffai hefyd ddiolch yn arbennig i Sue ac Wyn Leyslon aelodau o'r capel am drefnu ac arwain taith mor hwylus. Codwyd £450.

**Jennifer Clarke**

(Beth am i'ch eglwys chi anfon llun a phwt at y Tyst yn rhannu gyda ni hanes un o'ch digwyddiadau? Gol.)

# AGOR Y LLYFR



Bore dydd Iau 10 Mai 2018 bu rhai o aelodau tîm Agor y Llyfr plwyf Pontyberem yn cyflwyno neges 'Y Brenin Doeth' i ddisgyblion yr ysgol. Bu disgyblion yr ysgol yn ymateb yn ystod y stori a chafwyd tipyn o hwyl wrth gyflwyno'r neges arbennig hon.

## Pregethu grymus

Ar nos Wener y Grogllith digon oer a glawog ym mhellafoedd Dyffryn Clwyd cynhaliwyd ein Gŵyl Bregethu'r Grogllith sydd wedi ei chynnal yma ers cyn cof erbyn hyn. Daeth cynulleidfa wresog o ardal eang unwaith yn rhagor i wrando'r Gair i Ebenezer, Graigfechan.

Ein gŵr gwadd am eleni oedd y Parch. Euros Wyn Jones, Llangefni ac ni chawsom ein siomi fel cynulleidfa gyda'i destun na'i bregeth a godwyd o Lythyr at yr Hebraeid, pennod 9, adnod 15, 'Gwaed Iesu y Meseia'.

Mae ein diolch yn fawr iddo am bregeth rymus a oedd yn rhoi 'hwb i'r galon' a'r canu cynulleidfaol yn yr oedfa yn datgan ein clod hefyd. Gareth, Bryn yr Ogof oedd Blaenor y Mis ac ef a estynnodd groeso'r Eglwys a'r ardal i'r gŵr gwadd ac ef hefyd oedd yn cyfeilio wrth yr organ.

**Gareth Lewis Jones**

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

## Y FREUDDWYD

yn rhan o ddatliadau glaniad cenhadon Madagasgar

1818-2018

8pm, 8 Mehefin  
 Celaeron, Neuadd-lwyd

...y stori a'r sgrïptwyr,  
 y cast a'r côr - o'n milltir  
 sgwâr a Madagasgar

Tocynnau yn £8, plant dan 16 oed AM DDIM: 01570 470 697 / www.theatrefelinfach.cymru

Cymdeithas Ceredigion County Council  
 WILLIAMS & BOURNE  
 Cyfreithwyr Solicitors  
 MORGAN & DAVIES

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**  
**Cyfarfodydd Blynyddol 2018 Cyfundeb Ceredigion**  
 Neuadd Goffa, Aberaeron SA46 0DP

**DYDD MERCHER 6 Mehefin**

1.00 CYNHADLEDD 1 Cadeirydd: Y Llywydd, Mr D. Glyn Williams  
 Defosiwn - Parchg D. Andrew Lenny

5.00 TE CROESO - Gwesty'r Plu, Aberaeron

**DYDD IAU 7 Mehefin**

10.00 CYNHADLEDD 2 2.00 CYNHADLEDD 3  
 4.00 FFORWM AGORED YR UNDEB

7.30 OEDFA O FAWL - capel y Tabernacl, Aberaeron  
 Llywydd: Mr D. Glyn Williams. Pregeth: Parchg Guto Prys ap Gwynfor

**DYDD GWENER 8 Mehefin**

10.00 GWIBDAITH LEOL NEU FFILM  
 2.30 OEDFA'R LLYWYDD - y Neuadd Goffa  
 Anerchiad gan y Llywydd newydd, Parchg Jill-Hailey Harries

8.00 CYFLWYNIAD gan aelodau a chyfeillion eglwys Cyfundeb Ceredigion  
 Y Freuddwyd - Canolfan Celaeron, ger Neuadd-lwyd SA48 7RG

**DYDD SADWRN 9 Mehefin**

10.00 Defosiwn - Dr Dafydd Tudur

10.15 Cystadlaethau Cwpan Denman A Thylsau Cyfundeb Lerpwl  
 Siarad cyhoeddus a gwobrwy'r cystadlaethau

11.30 LANSIO APÊL MADAGASCAR

2.00 OEDFA DDATHLU - capel y Tabernacl  
 Daucanmlwyddiant glaniad y cenhadon o Gymru ym Madagasgar  
 Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jill-Hailey Harries  
 Pregeth: Parchg Ddr Noel A. Davies

7.30 CYNGERDD DATHLU  
 Amrywiol artistiaid o Gymru a Madagasgar

Croeso cynnes iawn i'r cyfarfodydd ac i'r dathliadau